# Arddangosfa addysg uwch Caerdydd 2018

# Llawlyfr i arddangoswyr

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol
Heol Cyncoed
Caerdydd
CF23 6XD

Dydd Mercher 28 Mawrth 2018
09:30 – 15:00



## Cynnwys


A .... 3
Anifeiliaid .... 3
Arddangosfeydd peryglus .... 3
Asesu risg .... 3
B .... 3
Balŵns .... 3
Bwyd a Diod .... 4
C .... 4
Canolfan fusnes .... 4
Carped .... 4
Casglu sganwyr .... 4
Contractwyr .... 4
Cyfyngiadau uchder .... 4
Cymorth cyntaf .... 5
Cyrraedd .... 5
D .... 5
Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd .... 5
Danfon .... 5
Diogelwch .... 6
E .... 6
Eiddo arddangoswyr .... 6
Eiddo coll .... 7
Esgidiau .... 7
Ff .... 7
Ffilmio .... 7
G .... 7
Glanhau .... 7
Gorchuddion nos .... 7
Gosod stondinau a'u tynnu i lawr .... 7
Gwasanaethau trydanol a phŵer ar y stondin .... 9
Ll .... 9
Llety .... 9
Llogi dodrefn .... 10
Llwybrau a mannau pasio .... 10
P .... 10
Parcio ceir .... 11
Plant .... 11
Polisi alcohol a chyffuriau .... 11
Rh .... 11
Rheoliadau tân .... 11
Rhyngrwyd .... 12
S .... 12
Staff y digwyddiad .... 12
Stondinau'r arddangosfa a dodrefn .... 13
T .... 16
Trefniadau mewn argyfwng .... 16
Trefnwyr .... 16
Trolïau .... 16
Y .... 17
Ysmygu .... 17
Yswiriant .... 17


UCAS

# A

## Anifeiliaid

Caiff cŵn tywys ddod i mewn i'r digwyddiad. Fodd bynnag, os ydych chi’n bwriadu cael unrhyw anifail arall ar eich stondin mae’n rhaid i chi ofyn am ganiatâd gan y trefnwyr oherwydd bydd goblygiadau o ran trwyddedu, a bydd angen cael caniatâd gan filfeddyg lleol.

## Arddangosfeydd peryglus

Ni cheir defnyddio, arddangos na storio unrhyw broses, gwrthrych na sylwedd beryglus yn y neuadd arddangos. Dyma enghreifftiau o eitemau sydd wedi'u gwahardd:

- fflamau go iawn
- deunyddiau fflamadwy, gan gynnwys gwirodydd petrolewm, paraffin a disel
- nwyon fflamadwy, gan gynnwys nwy petrolewm hylifol
- sylweddau peryglus
- boeleri, ffyrnau a ffwrneisiau
- arddangosfeydd symudol
- pelydrau golau neu byrotechnegau

## Asesu risg

Mae pob arddangosydd, drwy archebu lle i ddod i’r digwyddiad, wedi cytuno'n gyfreithiol i weithredu’r mesurau rheoli ar gyfer arddangoswyr sy’n dod i ddigwyddiad fel hwn – fel y nodwyd yn yr asesiad risg cyffredinol a ddarparwyd wrth archebu. Mae hyn yn cyfleu’r risgiau sylweddol sy’n bodoli yn ystod digwyddiad o’r fath. Mae copi o'r asesiad risg ar ddiwedd y llawlyfr hwn i arddangoswyr. Fe’ch cynghorir yn gryf i ddarllen y ddogfen hon ac i annog pob aelod o staff sy'n dod i’r digwyddiad i wneud yr un fath.

Efallai eich bod hefyd wedi cwblhau asesiad risg ychwanegol fel rhan o’ch archeb. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â chopi o hwn gyda chi i'r digwyddiad a’ch bod yn anfon copi i'r trefnwyr dros e-bost: events@ucas.ac.uk.

# B

## Balŵns

Ni chaniateir balŵns wedi’u llenwi â heliwm yn y digwyddiad hwn.

### Bwyd a Diod

Mae lolfa'r arddangoswyr ar y balconi yn y neuadd. Gellir mynd i'r lolfa drwy ddefnyddio'r grisiau sydd y tu mewn i'r brif fynedfa ar y chwith. Bydd byrbrydau a bwyd a diod poeth ac oer yn y lolfa.

Byddwn yn rhoi pedair taleb ar gyfer te a choffi i bob stondin. Gallwch ddefnyddio'r rhain yn lolfa'r arddangoswyr i gael te neu goffi am ddim. Os ydych chi ar stondin ddwbl neu stondin fwy, byddwn yn rhoi wyth o dalebau i chi. Bydd pob stondin yn cael potel o ddŵr hefyd.

## C

### Canolfan fusnes

Os bydd angen i chi wneud llungopïau, ewch i brif dderbynfa'r Ganolfan.

### Carped

Bydd llawr y neuadd yn cael ei orchuddio â charped siarcol yn yr eiliau a charped llwyd golau yn ardal y stondinau. Os oes gennych ofynion penodol o ran y llawr, cysylltwch â Formula Exhibitions ar 01904 608 855.

### Casglu sganwyr

Os ydych chi wedi trefnu i logi teclyn sganio yn yr arddangosfa, byddwch yn gallu ei gasglu rhwng 08:30 a 09:15 fore dydd Mercher 28 Mawrth, wrth ymyl swyddfa'r trefnydd.

### Contractwyr

Os ydych chi'n cyflogi contractwr i adeiladu neu ddylunio y tu mewn i'ch stondin, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael copi o'r llawlyfr hwn. Mae'n rhaid i'r contractwr hefyd gadw at reolau a rheoliadau'r lleoliad, sydd wedi'u nodi yn yr e-Ganllaw.

### Cyfyngiadau uchder

Yr uchder mwyaf ar gyfer arddangosfeydd yw 4m. Os mai stondin cynllun cragen rydych chi wedi'i brynu, mae paneli'r stondin yn 1m o led ac yn 2.44m o uchder. Dylai arddangoswyr sy'n dymuno adeiladu'n uwch na 2.44m gysylltu â threfnwyr y digwyddiad.

## Cymorth cyntaf

Os bydd arnoch angen cymorth cyntaf wrth osod y stondin, wrth ei thynnu i lawr, neu yn ystod y digwyddiad ei hun, dewch i swyddfa'r trefnydd.

## Cyrraedd

I gael mynediad i'r lleoliad, mae'n rhaid i chi gofrestru'ch manylion cyn y digwyddiad - bydd y ddolen ar gyfer gwneud hyn yn cael ei hanfon at y person sydd wedi archebu eich stondin. Ar ôl i chi gyrraedd bydd angen i chi gofrestru, a byddwch yn cael llinyn gwddf y bydd angen i chi ei wisgo bob amser.

# D

## Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd

Os byddwch chi'n cael damwain neu bron â chael damwain, neu os byddwch chi'n gweld hynny'n digwydd i rywun arall ar y safle, rhowch wybod i swyddfa'r trefnydd ar unwaith.

## Danfon

**Darllenwch yr adran 'gosod stondinau a'u tynnu i lawr' yn y llawlyfr hwn.**
Os bydd angen danfon unrhyw beth i'ch stondin ar y diwrnodau agored, rhaid gwneud hynny (a symud y cerbyd o'r mannau llwytho) o leiaf awr cyn yr amser agor. Ni fydd y trefnwyr yn gadael i'r digwyddiad ddechrau os oes cerbydau'n blocio allanfeydd tân. Er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, ni chaniateir trolïau ar lawr yr arddangosfa yn ystod oriau agor.

Os ydych chi'n disgwyl i gludydd ddanfon nwyddau i chi, gwnewch yn siŵr ei fod yn gwybod beth yw dyddiadau'r digwyddiad a beth yw amseroedd agor y neuadd. Os bydd nwyddau'n cael eu danfon cyn 08:00 ddydd Mawrth 27 Mawrth, bydd y ganolfan yn gwrthod eu derbyn.

Y cyfeiriad ar gyfer danfon yw:
Arddangosfa addysg uwch UCAS
**Enw'r arddangosydd**
**Rhif y stondin**
Y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol (NIAC)
Campws Cyncoed
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Heol Cyncoed
Caerdydd
CF23 6XD

## Diogelwch

Gofynnir i chi ystyried y cyngor canlynol gan y trefnwyr.

- Cysylltwch â chwmni diogelwch yr arddangosfa er mwyn cael cyngor ynglŷn â sut i gadw’r eitemau ar eich stondin yn ddiogel. Mae’n bosib y bydd storfa ddiogel i gadw eitemau gwerthfawr dros nos.
- Ewch ag unrhyw eitemau gwerthfawr adref gyda chi bob nos os nad oes cyfleusterau storio diogel ar y safle.
- Peidiwch â gadael eich stondin heb neb yn gofalu amdani unrhyw bryd yn ystod y gwaith gosod, yn ystod digwyddiad ei hun, nac wrth dynnu'r stondin i lawr.
- Peidiwch â rhoi eitemau atyniadol yn nhu blaen eich stondin, lle mae’n bosib na fydd modd i chi gadw llygad arnynt.
- Peidiwch â gwneud pethau'n hawdd i ladron. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi ddigon o staff, a pheidiwch â gofyn i rywun mewn stondin gyfagos gadw golwg ar eich stondin chi pan fyddwch chi’n cael toriad. Efallai y bydd pethau'n dechrau prysuro i'r person hwnnw a’i fod yn methu cadw golwg ar eich stondin chi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi mynd â’r holl eitemau cludadwy neu werthfawr o’r stondin ar y noson mae’r digwyddiad yn dod i ben. Peidiwch â’u gadael gyda’r bwriad o fynd i'w casglu y diwrnod wedyn.
- Cofiwch gyrraedd yn brydlon. Gwnewch yn siŵr bod staff ar eich stondin o leiaf 15 munud cyn yr amser agor, ond cofiwch fod y neuadd ar agor o 08:00 ymlaen.
- Dylech logi larwm ar gyfer eich stondin os ydych chi’n arddangos eitemau cludadwy neu werthfawr. Fe ddylech chi allu cael un gan gwmni diogelwch y digwyddiad.
- Os oes rhywun wedi dwyn rhywbeth, rhowch wybod i gwmni diogelwch y digwyddiad ar unwaith.

# E

## Eiddo arddangoswyr

Ni fydd y trwyddedwr yn rheoli nac yn gofalu am stondinau/arddangosfeydd ar stondinau, a rhaid i'r arddangoswyr wneud eu trefniadau yswiriant eu hunain. Er bod y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol/UCAS yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo’r arddangoswyr yn ystod unrhyw ddigwyddiadau, nid ydynt yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod.

Nid yw’r Ganolfan/UCAS chwaith yn derbyn dim cyfrifoldeb dros unrhyw beth sy'n cael ei adael yn yr eiddo, ac mae’n rhaid i chi drefnu i’r holl ddeunyddiau fynd o’r arddangosfa erbyn 20:00 ar 28 Ebrill. Bydd y Ganolfan yn cadw unrhyw eitemau fydd wedi'u gadael ar ôl yn yr eiddo ar ôl i'r denantiaeth ddod i ben. Bydd yn gwneud ei gorau i gysylltu â chi cyn gwaredu’r eitem, ond ni all warantu y bydd yn llwyddo i wneud hyn.

### Eiddo coll

Os bydd rhywun yn dod o hyd i eiddo coll, dylid mynd ag ef i'r dderbynfa neu i swyddfa'r trefnydd.

### Esgidiau

Rhaid gwisgo esgidiau addas ar y safle wrth osod y stondinau a'u tynnu i lawr. Ni chaniateir esgidiau anaddas, fflip-fflops na sandalau/esgidiau sy'n dangos bysedd y traed.

## Ff

### Ffilmio

Os ydych chi'n bwriadu ffilmio yn y digwyddiad, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r trefnydd, oherwydd bydd angen dilyn rheoliadau.

## G

### Glanhau

Bydd y mannau cyffredin a'r eiliau'n cael eu hwfro bob dydd, a bydd unrhyw sbwriel yn cael ei glirio, ond ni fydd yr arddangosfeydd yn cael eu glanhau. Gadewch eich bagiau sbwriel yn y mannau priodol pan fydd y digwyddiad wedi gorffen.

### Gorchuddion nos

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio gorchudd nos ar eich stondin, mae'n rhaid i'r defnydd fod yn anfflamadwy, neu gael ei drin i'w wneud yn anfflamadwy.  Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael copi o'ch allwedd yn swyddfa'r trefnydd fel bod y glanhawyr yn gallu cael mynediad at eich stondin.

Mae'n rhaid i orchuddion nos gael eu rholio i fyny'n dynn a'u diogelu os ydynt yn cael eu gadael ar y stondin yn ystod y dydd, rhag iddynt achosi rhwystr.

### Gosod stondinau a'u tynnu i lawr

**Gosod**

- Dydd Mawrth 27 Mawrth 16:00 – 18:00
- Dydd Mercher 28 Mawrth 08:00 – 09:30

**Tynnu i lawr**

- Dydd Mercher 28 Mawrth 15:00 – 16:15

**Cyrraedd**

Ddydd Mawrth 27 Mawrth, bydd angen i chi barcio o flaen y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol neu yn y maes parcio i arddangoswyr wrth ymyl y ganolfan dennis, a fydd i'w weld yn glir.

Fore dydd Mercher 28 Mawrth, dylech barcio yn y maes parcio i arddangoswyr wrth ymyl y ganolfan dennis. Ni fydd modd i gerbydau fynd i du blaen y Ganolfan. Bydd staff traffig yn gweithio yn y digwyddiad, a dylid dilyn eu cyfarwyddiadau bob amser.

**Mynediad at fan llwytho**

Bydd arddangoswyr sydd angen dadlwytho ar y bore Mercher yn cael mynediad drwy brif fynedfa'r Ganolfan. Dylech wisgo eich llinyn gwddf wrth ddadlwytho, a gwneud yn siŵr bod modd ei weld bob amser. Gallwch ddadlwytho ddydd Mawrth 27 Mawrth hefyd.

Fore dydd Mercher, gall cerbydau ddadlwytho drwy brif fynedfa'r Ganolfan, neu gallant ddefnyddio'r man llwytho sydd ar ochr chwith yr adeilad.
Bydd staff yn y man llwytho, a dylid symud y cerbydau cyn gynted ag y bo modd ac **o leiaf 30 munud cyn i'r arddangosfa ddechrau; ni fydd unrhyw eithriadau i hyn**. O ran cerbydau mwy, dim ond un cerbyd gaiff fynediad at y drysau llwytho ar y tro.

Nid oes cyfleusterau ar gyfer storio deunyddiau arddangos cyn y digwyddiad yn y Ganolfan. Mae hyn yn golygu y **bydd unrhyw beth sy'n cyrraedd cyn 27 Mawrth 2018 yn cael ei wrthod a'i anfon yn ôl**. Felly gofynnir i chi wneud yn siŵr mai dim ond yn ystod yr amseroedd mynediad uchod y mae nwyddau'n cael eu danfon. Ni fydd modd derbyn dim byd pan fydd y digwyddiad wedi dechrau.

Ni fydd staff y Ganolfan nac UCAS yn gyfrifol am lofnodi bod nwyddau wedi'u derbyn.

**Amserlen**
**Dydd Mawrth 27 Mawrth**

- 08:00 – 17:00: **mynediad i gontractwyr** (Ardal Cyfarpar Diogelu Personol – dim mynediad i arddangoswyr).
- 16:00 – 18:00: **mynediad i arddangoswyr.**

**Dydd Mercher 28 Mawrth**

- 08:00 – 09:30: **mynediad i arddangoswyr** – byddwch yn cael band ar gyfer arddangoswyr pan fyddwch yn cyrraedd y safle, a dylech wisgo hwn ar eich arddwrn i

gael mynediad. Mae'n rhaid i chi wisgo band dilys i gael mynediad i osod y stondin a'i thynnu i lawr. Ni fydd troliau'n cael eu darparu. Ni fydd cerbydau'n gallu mynd i'r man llwytho ar ôl 08:45. Bydd rhaid i bob cerbyd adael y man llwytho erbyn 08:45 yn ddieithriad, cyn i'r drysau gau.

- 09:30 – 15:00: **yr arddangosfa ar agor –** ni chaniateir troliau ar lawr yr arddangosfa pan fydd yr arddangosfa wedi agor i'r cyhoedd.
- 15:00: **yr arddangosfa'n cau**.
- 15:15 – 16:15: **arddangoswyr yn tynnu'r stondinau i lawr –** gwnewch yn siŵr bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu symud o'r arddangosfa a'r mannau llwytho erbyn yr amser cau. Eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu'n uniongyrchol â'r lleoliad a thalu unrhyw ddirwyon. Ni fydd UCAS yn gyfrifol am unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu gadael ar ôl yn y neuadd arddangos ar ôl yr amser hwn.
- 16:15: **contractwyr yn tynnu'r stondinau i lawr** (Ardal Cyfarpar Diogelu Personol – dim mynediad i arddangoswyr).

### Gwasanaethau trydanol a phŵer ar y stondin

Mae'n rhaid i unrhyw waith trydanol ar y safle gael ei wneud gan unigolyn cymwys, a chael ei archwilio gan y contractwr trydanol a benodwyd cyn troi popeth ymlaen.

Ni chaniateir defnyddio socedi trydan y lleoliad, a rhaid sicrhau nad yw'r ceblau'n pasio ar draws y llwybrau rhwng y stondinau. Pan fydd y trydan wedi cael ei roi ymlaen wrth osod y stondin, bydd yn cael ei ddiffodd bob nos, gan gynnwys y noson cyn y diwrnod agor. Bydd y pŵer i'ch stondin yn cael ei ddiffodd 30 munud ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben, ac ni fydd yn cael ei roi ymlaen eto mewn unrhyw amgylchiadau oherwydd y peryglon posib wrth dynnu popeth i lawr.

Bydd pob un o'r stondinau cynllun cragen (shell scheme) yn cael un golau fflworoleuol fel mater o drefn.

Cofiwch, **ni fydd** socedi trydan yn cael eu darparu fel mater o drefn yn rhan o stondinau arddangos y cynllun cragen. Os bydd arnoch angen soced trydan ar gyfer eich stondin, a fyddech cystal â threfnu hyn ar wahân gan ddefnyddio'r ffurflen yn yr adran 'ffurflen archebu'.

## Ll

### Llety

Y gwesty agosaf i'r lleoliad yw:

**Gwesty'r Park Inn** Gwefan: Park Inn Hotel Ffôn: 02920 589 988

Dyma westai eraill yng nghanol y ddinas:

- **Gwesty'r Big Sleep (2*)** - Gwefan: Big Sleep Hotel Ffôn: 02920 636 363
- **Gwesty'r Ibis – Canol y Ddinas (2*)** - Gwefan: Ibis Budget Cardiff Centre Hotel Ffôn: 02920 649 250
- **Gwesty'r Hilton (5*)** − Gwefan: Hilton Hotel Cardiff Ffôn: 02920 646 300
- **Holiday Inn – Canol y Ddinas (3*)** − Gwefan: Holiday Inn City Centre Cardiff Ffôn: 0870 400 8140
- **Gwesty'r Marriott Caerdydd (4*)** − Gwefan: Cardiff Marriott Hotel Ffôn: 02920 399 944

Darperir y rhestr hon er gwybodaeth yn unig, ac ni ddylid ei thrin fel argymhelliad gan UCAS.

**Mae rhagor o wybodaeth am Gaerdydd ar gael yn www.visitcardiff.com.**

## Llogi dodrefn

Os ydych chi'n dymuno llogi unrhyw ddodrefn, llenwch y ffurflen archebu ar www.ucasmedia.com/content/exhibitions-2018.

## Llwybrau a mannau pasio

Dylid gwneud yn siŵr nad oes dim byd yn rhwystro unrhyw lwybr, man pasio, mynedfa nac allanfa, a sicrhau eu bod yn glir tra bydd yr arddangosfa'n cael ei chynnal.

1. Ni chaiff unrhyw ran o unrhyw stondin amharu ar lwybr na man pasio, ac ni chaiff unrhyw ddrws, ffenestr na dim byd arall tebyg agor allan y tu hwnt i derfyn allanol y stondin.
2. Rhaid cadw'r llawr o amgylch eich stondin yn lefel ac yn wastad, a gwneud yn siŵr nad yw'n mynd yn llithrig neu'n achosi perygl mewn unrhyw ffordd.
3. Os nad oes llwyfan yn cael ei ddarparu gyda stondin arddangos, bydd lleoliad y stondin yn cael ei ddiffinio'n glir, a bydd yr arddangosfeydd yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n gwneud yn siŵr bod lled y llwybrau yr un fath.

## P

## Parcio ceir

Mae digon o le parcio i arddangoswyr. Fore dydd Mercher 28 Mawrth, gallwch barcio ym maes parcio'r cwrt tennis. Wrth ddod i mewn i'r campws drwy Brif Fynedfa Heol Cyncoed (CF23 6BN ar eich Sat Nav), ewch ymlaen drwy'r barrau a dilyn y ffordd nes i chi gyrraedd maes parcio'r cwrt tennis ar yr ochr dde. Mae'r Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol i lawr y llwybr cerdded ar y dde. Bydd y parth hwn yn barth heb draffig o 09:00 ymlaen ddydd Mercher 28 Mawrth.

Ni fydd angen talu am barcio ar 27 Mawrth pan fydd y lleoliad yn cael ei baratoi, ond **bydd angen talu ac arddangos ar 28 Mawrth**. Y gost yw £2 am y diwrnod ac nid yw'r peiriannau'n rhoi newid. Fodd bynnag, gallwch dalu â cherdyn digyffwrdd. Fel arall, gallwch ddefnyddio'r Ap Indigo i dalu am barcio; mae rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y llawlyfr hwn. Mae'r meysydd parcio yn cael eu rheoli gan gwmni preifat, a bydd dirwyon parcio yn cael eu rhoi os na fyddwch yn arddangos tocyn parcio.

## Plant

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, nid yw plant dan 16 oed yn cael mynd i mewn i'r lleoliad yn ystod y cyfnodau ar gyfer gosod stondinau a'u tynnu i lawr.

## Polisi alcohol a chyffuriau

Ni chaniateir yfed alcohol wrth osod eich stondin nac wrth ei thynnu i lawr. Mae gan y lleoliad bolisi llym iawn ar alcohol a chyffuriau, sy'n caniatáu iddo brofi unrhyw gontractwr os oes amheuaeth ei fod o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, neu ei orfodi i adael y safle.

Oherwydd natur y digwyddiad, ni chaniateir gwerthu alcohol.

# Rh

## Rheoliadau tân

Mae'r rheoliadau canlynol wedi'u cynnwys yn yr e-Ganllaw ac mae'n rhaid i bob contractwr ac arddangoswr gydymffurfio â nhw.

Bydd yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir wrth osod y stondinau, y nodweddion a'r arddangosfeydd, gan gynnwys arwyddion ac estyll:

- o natur ac ansawdd addas ar gyfer dibenion ac amodau'r defnydd a fwriedir

- wedi'u paratoi’n briodol a’u gosod mewn ffordd sy'n cyflawni’r swyddogaethau y cawsant eu dylunio ar eu cyfer
- yn ddeunyddiau sydd ddim yn llosgi, sy’n naturiol anfflamadwy, neu’n ddiogel rhag fflamau, yn unol â BS476-Rhan 7
- yn seiliedig ar ddŵr pan fo modd, ee nwyddau gludo a phaent

Safonau Prydeinig yw’r rhai sylfaenol a dderbynnir ar gyfer deunyddiau adeiladu. Gellir cyflwyno sampl o’r deunyddiau i’r ganolfan i’w cymeradwyo. Gellir profi deunyddiau ar y safle i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio.

Rhaid bod unrhyw ddeunyddiau addurniadol, llenni ac ati wedi’u diogelu rhag fflamau. Rhaid i unrhyw orchudd a roddir ar y llawr gael ei roi yn ei le yn ddiogel fel nad yw'n achosi perygl.

Deallir y bydd arddangoswyr yn defnyddio cynnyrch papur yn rhan o ddeunyddiau eu stondin, (sy'n ddeunydd y mae modd ei losgi). Bydd mesur rheoli ‘dim ysmygu’ uniongyrchol ar waith drwy’r lleoliadau i gyd er mwyn lleihau'r risg o dân. Os bydd unrhyw arddangosfa yn cynnwys cynnyrch neu sylwedd fflamadwy, dylai hyn gael ei ystyried a’i reoli gan asesiad risg ar wahân, yn amodol ar gymeradwyaeth trefnydd y digwyddiad ee arddangosfa goginio.

### Rhyngrwyd

Mae’r rhyngrwyd ar gael ar y safle – dewiswch **y rhwydwaith i ymwelwyr** a defnyddio eich manylion chi i fewngofnodi. Mae'r cysylltiad â'r rhyngrwyd yn gyfyngedig. I gael cysylltiad mwy dibynadwy, cysylltwch ag UCAS er mwyn gallu gwneud trefniadau â’r lleoliad.

## S


### Staff y digwyddiad

Bydd staff y digwyddiad o gwmpas drwy gydol y dydd a byddant yn ddigon hawdd eu hadnabod yn eu crysau UCAS coch. Byddant yn gwneud yn siŵr bod bocsys gwag yn cael eu clirio, yn cadw’r llwybrau rhwng y stondinau’n daclus ac yn cyfarwyddo ymwelwyr ac arddangoswyr yn ôl yr angen. Mae croeso i chi ofyn iddynt am gymorth. Fodd bynnag, ni fyddant yn gwneud unrhyw waith codi gormodol.

Cofiwch, y  cwmnïau prosbectws sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr bod eich stondin a’ch prosbectws yn cael eu danfon. Am resymau iechyd a diogelwch, ni fydd staff y digwyddiad, fel mater o drefn, yn gallu danfon prosbectysau nac ychwanegu at y stoc. Felly, gofynnir i arddangoswyr sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau angenrheidiol i gael digon o brosbectysau yn eu stondinau ar ddechrau'r diwrnod.

## Stondinau'r arddangosfa a dodrefn

Y llynedd, cawsom olwg newydd ar gyfer ein cynllun cragen. Ni fydd yr estyll uwch eu pennau rhagor, a bydd gan y stondinau fwrdd enw ar yr ochr. Mae enghraifft o’r cynllun newydd hwn isod:




Mae gorffeniad y paneli cynllun cragen yn orffeniad o ansawdd uchel wedi'i greu o ddefnydd neilon dolennog sy'n arafu fflamau, ac wedi'i gynhyrchu i gydymffurfio â rheoliadau tân Dosbarth 1. Mae'n hawdd defnyddio tâp a thabiau Felcro i osod eitemau arno. Mae’r waliau’n cynnwys paneli gydag uniadau bôn, a’r rheini’n 2.44m o uchder a 50mm o drwch, a’r rhag-orffeniad mewn defnydd neilon dolennog. Cofiwch y gallech golli rhwng 50 a 100mm o led eich stondin arddangos os ydych chi mewn bloc neu’n rhan o res.

Bydd enw eich sefydliad a rhif eich stondin yn cael eu dangos ar fwrdd enw eich stondin, gan ddibynnu ar y manylion a roddwyd yn yr archeb ar-lein. Rhowch wybod i UCAS yn syth os oes angen gwneud unrhyw newidiadau, gan gysylltu ag: events@ucas.ac.uk. Codir ffi am newid unrhyw fwrdd enw lai na deg diwrnod gwaith cyn yr arddangosfa.

**Beth sydd wedi'i gynnwys gyda’r stondin arddangos?**
Bydd stribed golau LED wedi'i gynnwys gyda’ch stondin. Mae ffurflen archebu yn yr adran gwybodaeth i arddangoswyr ar www.ucasevents.com os oes gennych chi ragor o ofynion trydanol. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon i Formula Exhibitions ddim mwy nag 16 diwrnod cyn y digwyddiad (gan gynnwys penwythnosau).

**Ni fydd** socedi trydan yn cael eu darparu fel mater o drefn gyda stondinau arddangos cynllun cragen.

**Lle gwag yn unig**

**Nodyn pwysig: ni fydd contractwyr yn cael dechrau ar y gwaith gosod nes eu bod wedi cydymffurfio â holl ofynion Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992.**

Rydym yn cynghori arddangoswyr sydd â stondin fel hyn i ymweld â'r safle lle bo angen. Mae'n ofynnol bod yr holl strwythurau, deunyddiau, dyluniadau arbennig, adeiladwaith anghyffredin ac arwyddion yn cydymffurfio â Chodau Ymarfer a Safonau Diogelwch Prydain, yn ogystal â rheoliadau'r Cyngor Lleol neu reoliadau unrhyw Awdurdod Statudol arall (darllenwch y 'rheoliadau tân').

Mae'n rhaid i unrhyw arddangoswr sy'n trefnu i gael lle gwag yn unig roi'r canlynol i drefnydd y digwyddiad:

- copi o lun wrth raddfa, gan gynnwys cynlluniau a lluniau sy'n dangos y stondin o wahanol ochrau
- amserlen ar gyfer adeiladu
- datganiad dull
- asesiad risg
- manylion llawn am y defnydd a'r deunyddiau
- tystysgrif yswiriant trydydd parti ar gyfer £5 miliwn o leiaf

Mae'r trefnydd yn cadw'r hawl i gyflwyno unrhyw gynlluniau i beiriannydd strwythurol, a fydd yn codi ffi NAD OES modd ei phennu ymlaen llaw, a rhaid i'r arddangosydd neu ei gontractwr dalu'r ffi honno cyn i'r gwaith ddechrau.

**Ni** chaniateir i stondinau o'r fath roi unrhyw ddeunydd yn sownd yn y waliau cynllun cragen heb ganiatâd ymlaen llaw. Mae'n rhaid i'r safleoedd hyn sydd rhwng y safleoedd cynllun cragen ystyried maint y lle sydd ar gael. Os na fydd y mesuriadau mewnol yn cael eu gwneud yn ddigon gofalus, mae'n bosib na fydd y stondin yn ffitio yn y gofod pwrpasol. Rhaid addurno arwyneb pob partisiwn a godir uwchben yr uchder safonol ar gyfer y stondinau cynllun cragen, sef 2.44m.

Yn ogystal â hyn, rhaid i du blaen a chefn pob stondin fod yn orffenedig.

**Strwythurau cymhleth**
Diffiniad: gellir disgrifio strwythur cymhleth fel unrhyw fath o adeiladwaith o unrhyw uchder a fyddai, fel arfer, yn cael ei ddylunio gan beiriannydd ac sydd, yn ôl asesiad risg, yn achosi risg sylweddol.

Dyma enghreifftiau o strwythurau cymhleth:

- strwythurau sydd dros 4m o uchder
- stondinau aml-lawr

- llwyfannau gwasanaeth a gwylio
- eitemau sy'n hongian, ee arwyddion a chyfarpar goleuo
- llwybrau sydd wedi'u codi oddi ar y llawr
- rampiau
- tyrau sain a goleuo
- rhesi o seddi dros dro
- platfformau a llwyfannau dros 0.6m o uchder
- strwythurau sy'n cynnwys to

Mae angen y manylion canlynol ar gyfer strwythurau cymhleth:

- lluniau strwythurol manwl wrth raddfa (gan gynnwys grisiau a chynllun o'r stondin o wahanol safbwyntiau a chyfeiriadau)
- cyfrifiadau, manylebau a datganiad dull, pob un yn dangos enw'r digwyddiad ac enw neu rif y strwythur.

Ar gyfer pob strwythur cymhleth, bydd angen i'r trefnydd anfon dwy set gyflawn o'r uchod yn Saesneg. **Ni** ddylai eitemau gael eu hanfon fesul tipyn.

Mae'n rhaid i unigolyn profiadol a chymwys – yn gyffredinol, peiriannydd siartredig, gydag yswiriant indemniad proffesiynol priodol – ardystio pob strwythur cymhleth i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel.

**Deunyddiau adeiladu**

- Mae blodau artiffisial ac addurniadau tebyg yn llosgadwy ac yn rhyddhau mygdarthau gwenwynig. Ni cheir eu defnyddio fel addurniadau. Mae blodau sidan yn dderbyniol, ar yr amod eu bod yn ddiogel rhag tân i safon BS 5438 a bod hynny wedi'i nodi arnynt. Mae planhigion seliwlos yn fflamadwy ac ni cheir eu defnyddio i addurno stondinau.
- Wrth eu profi'n briodol yn unol â BS 4790, dylid gwneud yn siŵr nad yw carpedi, lloriau nac isgarpedi a gorchuddion llawr hyblyg eraill yn tanio, neu sicrhau bod effaith y tanio wedi'i chyfyngu i radiws o 35mm ar yr arwyneb uchaf ac isaf. Mae'n ofynnol bod cyflenwyr a chontractwyr yn defnyddio Stikatak Eurocel, cod B7 38 x 50, i osod gorchuddion ar y llawr. Mae llawer o'n contractwyr yn defnyddio hwn yn barod, ond o hyn ymlaen bydd yn orfodol i bob contractwr ei ddefnyddio. Bydd hyn yn sicrhau nad ydynt yn wynebu costau diangen os bydd rhywbeth yn disgyn o'i le neu'n cael ei ddifrodi. Mae'r tâp ar gael gan Stikatak. Gwaherddir dulliau eraill o osod pethau, fel clipiau cebl, hoelion neu folltau.
- Rhaid i lenni a phethau eraill sy'n hongian, ac addurniadau dros dro, fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau sy'n gallu arafu fflamau, a dylent gydymffurfio â BS EN 4790. Dylid gwneud yn siŵr bod bwlch o 75mm rhwng gwaelod y deunydd a'r llawr. Dylent fod wedi'u rhannu yn y canol, ac ni ddylent guddio unrhyw arwyddion sy'n dangos allanfeydd. Dylai llenni, addurniadau sy'n hongian a chlustogwaith fod o leiaf 75mm uwchben lefel y llawr, gyda sgertin 75mm o drwch, wedi'u gosod yn dynn a/neu mewn pletiau tynn yn erbyn cefndir solid. Bydd y trefnydd yn darparu tystysgrifau prawf ar

gyfer unrhyw ddeunyddiau y bwriedir eu defnyddio. Os nad yw’r Ganolfan yn fodlon bod defnydd yn bodloni’r safonau gofynnol, rhaid mynd â’r defnydd o’r ganolfan.

- Mae’n ofynnol bod gwydr yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu cyfredol y DU a Safonau Prydeinig perthnasol, gan gynnwys BS 6206 a BS 6262. Mae’n ofynnol bod modd gweld unrhyw wydrau clir mawr, yn enwedig drysau gwydr (er enghraifft, drwy ddefnyddio streipiau rhybudd, dotiau neu logos), er mwyn gwneud yn siŵr nad yw pobl yn anafu eu hunain wrth gerdded i mewn i’r gwydr yn anfwriadol. Rhaid i unrhyw wydr uwchben fod yn wydr gwifrog neu fel arall rhaid iddo fod yn ddiogel rhag iddo dorri.
- Mae angen rhybudd ysgrifenedig, 28 diwrnod ymlaen llaw, os bwriedir defnyddio paent chwistrell. Ni cheir ei ddefnyddio heb ganiatâd y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol. Ceir chwistrellu paent ar yr amod:

    - mai dim ond paent seiliedig ar ddŵr a ddefnyddir
    - bod camau diogelu yn cael eu cymryd i wneud yn siŵr nad oes paent yn cael ei golli ar y llawr, ac nad yw'n cael ei chwistrellu na’i dasgu ar y waliau nac ar rannau eraill o'r adeilad, y strwythurau na’r offer
    - nad yw’n achosi niwsans i bobl eraill yn y Ganolfan

# T

## Trefniadau mewn argyfwng

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â’r trefniadau i’w dilyn mewn argyfwng.

Mae'r ddogfen trefniadau mewn argyfwng i’w gweld ar wefan arddangosfa Caerdydd, yn yr adran lawrlwytho.

## Trefnwyr

Mae swyddfa’r trefnydd y tu ôl i’r stondinau ar ochr chwith y neuadd. Bydd aelod o dîm Digwyddiadau Cyfryngau UCAS yn rheoli swyddfa’r trefnydd yn ystod y digwyddiad.

## Trolïau

Nid oes trolïau ar gael yn y lleoliad, felly dewch ag un eich hun os oes angen i chi ddanfon nwyddau i’ch stondin.

Dim ond y tu allan i oriau’r digwyddiad y caniateir trolïau ar lawr yr arddangosfa, er diogelwch yr ymwelwyr.

## Y

### Ysmygu

Mae gan y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol a champws Cyncoed bolisi **dim ysmygu** llym yn y neuadd ac ar y campws, a gofynnir i chi gydweithredu'n llwyr i sicrhau y cydymffurfir â hyn yn ystod yr arddangosfa ei hun ac wrth ei gosod.

### Yswiriant

Mae'n hanfodol bod gennych chi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwyr digonol rhag anafiadau personol, colledion neu ddifrod i'r arddangosfa ac ati.

Er bod y trefnwyr yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo arddangoswyr yn ystod y digwyddiad, nid ydynt yn gyfrifol am unrhyw golledion na difrod. Dylech wneud yn siŵr bod gennych yswiriant atebolrwydd cyflogwyr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

**To be inserted: risk assessment and public liability insurance certificate, plus any additional documents needed (lunch forms, internet etc.)**

UCAS HELOA HIGHER EDUCATION LIAISON OFFICERS ASSOCIATION

# Digwyddiadau UCAS
# Cod Ymddygiad Arddangoswyr

## Cyflwyniad

Mae UCAS yn trefnu rhwydweithiau o Ddigwyddiadau ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer darpar fyfyrwyr. Diben y digwyddiadau yw rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am eu haddysg yn y dyfodol a chyfleoedd gyrfa gan amrywiaeth ehangach o sefydliadau a mudiadau. Er mwyn gwneud yn siŵr mai anghenion myfyrwyr sydd wrth galon y Digwyddiadau, a bod yr holl arddangoswyr yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â myfyrwyr, rhaid i bob arddangoswr lynu wrth y cod ymddygiad canlynol. Mae UCAS a HELOA gyda'i gilydd wedi cytuno ar y cod ymddygiad.

## Staffio

- Dylai pob aelod staff a fydd yn mynychu'r Digwyddiadau neu'n gweithio arnynt weld copi o'r Cod Ymddygiad. Dylent hefyd allu cydymffurfio'n llawn â'r Cod. Dylent ddangos safon uchel o broffesiynoldeb yn eu gwaith a chynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn effeithiol ac yn ddidwyll.
- Dylai'r arddangoswyr ddarparu staff priodol i weithio ar eu stondin, y rheini wedi cael eu hyfforddi'n ddigonol ac yn meddu ar wybodaeth ddigonol i gynrychioli'u sefydliad mewn ffordd safonol. Dylai gwybodaeth cyn y digwyddiad gael ei throsglwyddo i'r rheini a fydd yn mynychu'r Digwyddiad.
- Rhowch ystyriaeth ofalus i nifer y staff a fydd yn gweithio ymhob Digwyddiad. Dylai'r holl staff allu gweithio'n gyfforddus o fewn y gofod sy'n cael ei ddarparu. Mae UCAS yn argymell dim mwy na dau aelod staff ar gyfer stondin 2m x 1m, tri ar gyfer stondin 3m x 2m a chwe pherson ar gyfer stondin 6m x 2m. Efallai y gofynnir i aelodau staff ychwanegol adael os bydd iechyd, diogelwch neu gysur ymwelwyr neu arddangoswyr eraill yn cael ei beryglu.
- Mae seminarau'n cael eu cyflwyno ar sail ddiduedd. I sicrhau bod Digwyddiadau'n ddiduedd, dylai'r rheini sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno seminar yn y Digwyddiad sicrhau bod eu cyflwyniad yn darparu cyngor ac arweiniad cyffredinol, a heb i wrandawyr deimlo eu bod yn dangos rhagfarn annheg tuag at gwmni, sefydliad neu ddarparwr AU penodol. Bydd unrhyw gyflwynydd nad yw'n dangos ei fod yn ddiduedd yn cael ei wahardd rhag cyflwyno seminarau mewn digwyddiadau yn y dyfodol.
- Dylai'r arddangoswyr ddweud wrth UCAS a Threfnydd Lleol y Digwyddiad oni fyddant yn gallu mynychu Digwyddiad. Mae llawer o Ddigwyddiadau'n llawn gyda rhestr aros o arddangoswyr. Gall peidio â mynychu Digwyddiad heb roi rhybudd ymlaen llaw olygu na fydd yn cael dod i Ddigwyddiadau yn y dyfodol.

**Deunydd marchnata**

- Dylai'r holl ddeunydd hyrwyddo fod yn berthnasol ac yn rhoi darlun cytbwys o'r sefydliad mae'n ei gynrychioli.
- Onid oes stondin o faint penodol wedi'i archebu, y gofod safonol a ddarperir yw:
  - Cynllun cragen: 3m x 2m. Ni fydd dodrefn ar gael yn awtomatig - gallwch archebu darnau o ddodrefn pan fyddwch yn archebu eich lle yn yr arddangosfa
  - Digwyddiadau Campws: 2m x 1m. Bydd un bwrdd a dwy gadair yn cael eu darparu a fydd yn addas i'r gofod hwn.

  Rhaid i ddimensiynau'r stondinau arddangos a'r holl ddeunyddiau fod yn briodol i'r gofod hwn heb ymwthio i'r llwybrau neu'r stondinau cyfagos. Ychydig iawn o le storio sydd ar gael mewn digwyddiadau Campws. Felly rhaid i'r man storio prosbectysau/stondinau baner gadw at ofod y stondin a pheidio â tharfu ar stondinau cyfagos/llwybrau nac achosi rhwystrau y gallai pobl faglu drostynt. **Os bydd maint y stondin yn fwy na'r gofod sydd wedi'i ddyrannu i arddangoswyr, gofynnir iddynt dynnu'r stondin i lawr neu ei haddasu fel ei bod o'r maint cywir.**

**Yn ystod Digwyddiadau**

- Dylai arddangoswyr gyrraedd a gosod eu stondin mewn da bryd cyn i'r Digwyddiad agor a pheidio â gadael nes bydd y Digwyddiad wedi cau'n swyddogol. Rhaid i'r arddangoswyr aros yn y Digwyddiad drwy'r oriau agor i sicrhau bod yr holl ymwelwyr yn cael mynediad teg at wybodaeth a chyngor.
- Rhaid peidio â thynnu stondinau i lawr tra bydd ymwelwyr yn dal yn y neuadd a hynny am resymau iechyd a diogelwch.
- Rhaid i'r arddangoswyr aros ar eu stondin drwy gydol y Digwyddiad a pheidio â gwneud unrhyw weithgarwch hyrwyddo yn y llwybrau neu rhwng y stondinau. Iechyd a diogelwch yw'r rheswm am hyn ac i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth, cyngor ac arweiniad.
- Ni ddylai arddangoswyr adael eu stondin wrth geisio cael sylw ymwelydd neu i gael trafodaeth â'r ymwelydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn sefyll ar eich stondin fel bo'r llwybrau yn glir.
- Rhaid i'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad beidio â rhoi arddangoswyr eraill o dan anfantais.
- Ni cheir dod â throlïau/cesys i'r arddangosfa yn ystod oriau agor y digwyddiad.

**Dilyn y Cod Ymddygiad**

Mae UCAS a HELOA yn cydnabod bod arddangoswyr yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â'r cod ymddygiad, ac os bydd problemau'n codi, er bod hynny'n annhebygol iawn, bydd unrhyw bryderon yn cael sylw'n gyflym.

Dylai unrhyw arddangoswr, trefnydd Digwyddiad lleol neu ymwelydd sydd â phryder hysbysu cynrychiolydd UCAS a fydd yn bresennol yn y Digwyddiad am y mater i ddechrau. Bydd Cynrychiolydd UCAS yn cysylltu â'r arddangoswr/arddangoswyr perthnasol er mwyn ceisio datrys y mater. Bydd pob mater a godir yn cael ei gofnodi a'i adolygu'n rheolaidd gan UCAS a HELOA. Os bydd problemau'n codi dro ar ôl tro, bydd yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Ddigwyddiadau UCAS yn y sefydliad yn cael gwybod ac fe geisir cael ateb priodol i'r mater. Oni lynir wrth y cod ymddygiad, bydd mynychu Digwyddiadau yn y dyfodol yn cael ei roi yn y fantol.

Os yw'r pryderon yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch difrifol, bydd Cynrychiolydd UCAS (neu'r Trefnydd Lleol) yn cymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol yn syth i sicrhau iechyd a diogelwch staff, arddangoswyr ac ymwelwyr.

Y tu allan i Ddigwyddiadau, gellir cysylltu ag UCAS drwy exhibitions@ucas.ac.uk

# PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

## CAMPWS CYNCOED

# TREFNIADAU AR GYFER GWAGIO'R ADEILAD

**(RHIFYN UN, MAWRTH 1998, Adolygwyd MAWRTH 2011)**

## 1. Y TREFNIADAU

**Y Larwm**

1. Os bydd rhywun yn canfod tân, dylid canu'r larwm ar unwaith drwy dorri'r gwydr ar banel y larwm agosaf a gadael yr adeilad drwy'r allanfa agosaf. Ni ddylai unrhyw un sydd heb gael hyfforddiant geisio diffodd y tân.

II. Er mwyn i bob aelod o staff a myfyriwr gael cyfle i ymgyfarwyddo â sain y larwm ar gyfer gadael yr adeilad, dylid profi'r system bob dydd Mercher rhwng 0800 a 0855. Bryd hynny, dylai pob aelod o staff a myfyriwr ymgyfarwyddo â'r trefniadau ar gyfer gadael yr adeilad.

### Gadael yr Adeilad

III Os bydd y larwm yn canu, ac eithrio yn ystod y prawf wythnosol, rhaid i holl Staff, Myfyrwyr ac Ymwelwyr y Coleg adael yr adeilad ar unwaith gan ddefnyddio'r llwybr agosaf, ac ymgynnull y tu allan yn y "MANNAU YMGYNNULL" perthnasol.

**GADAEL Y PRIF ADEILAD**

MAN YMGYNNULL "1" - O FLAEN BLOC "B" YN Y PRIF FAES PARCIO I STAFF.
MAN YMGYNNULL "2" - O FLAEN TŶ THOMAS, GER PRESWYLFEYDD CLARE.
MAN YMGYNNULL "3" - AR OCHR CENTRO
MAN YMGYNNULL "5" - WRTH Y CAE CHWARAE ARTIFFISIAL, YNG NGHEFN Y PRIF ADEILAD
MAN YMGYNNULL "9" - AR Y LLAIN WERDD, Y NEUADD CHWARAEON, GYFERBYN Â GRISIAU BLOC C

**GADAEL Y NEUADD CHWARAEON**

MAN YMGYNNULL "3" - AR OCHR CENTRO
MAN YMGYNNULL "4" - RHWNG Y NEUADD CHWARAEON AC ADEILAD QUEENSWOOD.
MAN YMGYNNULL "9" - AR Y LLAIN WERDD, Y NEUADD CHWARAEON, GYFERBYN Â GRISIAU BLOC C

**GADAEL Y GANOLFAN DENNIS**

MAN YMGYNNULL "6" - YM MAES PARCIO'R GANOLFAN DENNIS

**GADAEL QUEENSWOOD**

MAN YMGYNNULL "4" - RHWNG Y NEUADD CHWARAEON AC ADEILAD QUEENSWOOD.

**GADAEL Y TŶ YMCHWIL**

MAN YMGYNNULL "5" - WRTH Y CAE CHWARAE ARTIFFISIAL, YNG NGHEFN Y PRIF ADEILAD

**Y GANOLFAN ATHLETAU DAN DO GENEDLAETHOL**

MANNAU YMGYNNULL 7 AC 8 - CAE RYGBI RHIF 2 - YNG NGHEFN ADEILAD Y GANOLFAN ATHLETAU DAN DO GENEDLAETHOL

**GADAEL Y NEUADD CHWARAEON NEWYDD YM MLOC P**

MAN YMGYNNULL "YNG NGHEFN BLOC P DROS DRO" - YNG NGHEFN Y NEUADD CHWARAEON NEWYDD A BYDD ARWYDDION A LLWYBR DROS DRO YN EI DDANGOS NES BYDD Y GWAITH ADEILADU WEDI'I GWBLHAU.

GALL POBL Â CHADAIR OLWYN HEFYD DDEFNYDDIO'R ALLANFA FLAEN A "MAN YMGYNNULL 6" YM MAES PARCIO'R GANOLFAN DENNIS

**GADAEL Y PRESWYLFEYDD**

| | |
|---|---|
| FITZHAMMON, HERBERT A STRADLING | MAN YMGYNNULL "1", O FLAEN BLOC "B" YN Y PRIF FAES PARCIO I STAFF. |
| TŶ WARWICK, TŶ THOMAS, CLARE, BUTE AC ELLIS | MAN YMGYNNULL "2", O FLAEN TŶ THOMAS, GER PRESWYLFEYDD CLARE. |
| STUTTGART, BALTIMORE, NANTES A NEVILLE | MAN YMGYNNULL "3", AR OCHR FFREUTUR CENTRO. |

**NI DDYLID DEFNYDDIO LIFFTIAU O DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU.**

**BYDD YR HYSBYSIADAU TREFNIADAU TÂN GLAS SYDD WEDI'U GOSOD YN STRATEGOL AR WALIAU A DRYSAU DRWY'R CAMPWS YN CYNNWYS RHAGOR O FANYLION AM Y MANNAU YMGYNNULL A'R GOFYNION O RAN GADAEL YR ADEILAD.**

IV. **Drysau Dianc Bollt Pin**
Mae'r drysau hyn wedi'u cloi ac mae larwm arnynt bob amser. Fodd bynnag, petai angen gadael yr adeilad mewn argyfwng, dylid torri'r 'bolltau pin' a defnyddio'r drysau.

V. Bydd drysau llithro'r Brif Fynedfa yn agored bob amser er mwyn caniatáu i Staff, Myfyrwyr ac Ymwelwyr fynd allan yn gyflym.

VI. Ar ôl mynd allan, dylai unigolion fynd ymlaen i'r Man Ymgynnull agosaf a chadw ymhell i ffwrdd o'r adeilad ei hun.
Rhaid cadw mynedfeydd a ffyrdd i mewn i'r adeilad yn glir er mwyn i Wasanaethau Brys allu cael mynediad.
Dylai Wardeiniaid Tân a Staff sicrhau bod Myfyrwyr ac Ymwelwyr yn gadael yr adeilad ac yn mynd i'r Man Ymgynnull priodol, gan beidio ag ymgynnull tu allan i'r drysau mynediad.

VII Ni ddylai fod unrhyw symudiadau traffig sydd ddim yn angenrheidiol. Bydd y "Barrau" ym mynedfa'r Maes Parcio Blaen ar agor er mwyn caniatáu i Gerbydau Gwasanaethau Brys (Tân, Ambiwlans ac ati) gael mynediad.

VIII Mae'n rhaid i'r Wardeiniaid Tân wneud yn siŵr bod pawb wedi gadael yr adeilad a rhoi gwybod i Gydlynydd Gwagio'r Adeilad neu i Ddirprwy Gydlynydd Gwagio'r Adeilad, wrth un o'r Mannau Ymgynnull.

IX Dylai tiwtoriaid gymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr bod pob Myfyriwr sydd mewn dosbarthiadau wedi gadael yr adeilad, ac os bydd yn bosibl, dylid galw'r gofrestr yn y man ymgynnull perthnasol.

X Rhoddir cymeradwyaeth i fynd yn ôl i mewn i'r adeilad drwy ddistewi'r larwm ar ôl archwilio'r ardal yr effeithiwyd arni'n drylwyr. Neu, bydd y Wardeiniaid yn cymeradwyo hynny yn unol â chyfarwyddiadau Cydlynydd Gwagio'r Adeilad / Rheolwr Gwasanaethau'r Campws. Staff ddylai fynd yn ôl i mewn i'r adeilad yn gyntaf, yna'r Myfyrwyr a'r Ymwelwyr.

XI. Os bydd Cydlynwyr Gadael yr Adeilad, y Wardeiniaid neu unigolion sy'n gadael yr adeilad yn sylwi ar unrhyw broblem sy'n atal y Trefniadau ar gyfer Gadael yr Adeilad rhag gweithredu'n ddidrafferth, dylant roi gwybod yn syth i Reolwr Gwasanaethau'r Campws fel bod modd cymryd camau adferol.

**2. SYMUD POBL SY'N DEFNYDDIO CADAIR OLWYN/ POBL Â SYMUDEDD CYFYNGEDIG**

I. Dylid rhoi pob cymorth i symud defnyddwyr cadeiriau olwyn / pobl â phroblemau symudedd drwy ddefnyddio cadeiriau Achub. **Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio lifftiau ar y diben hwn o dan unrhyw amgylchiadau.**

**3. TREFNIADAU AMGEN AR GYFER GADAEL YR ADEILAD**

I. Mewn rhai achosion, efallai na fydd angen canu'r larwm. Yn yr achosion hynny, bydd y Wardeiniaid Tân yn rhoi cyfarwyddiadau llafar i chi ar gyfer gadael yr adeilad.

II. Rhoddir cymeradwyaeth i fynd yn ôl i mewn i'r adeilad drwy ddistewi'r larwm ar ôl archwilio'r ardal yr effeithiwyd arni'n drylwyr. Neu, bydd Wardeiniaid yn cymeradwyo hynny yn unol â chyfarwyddiadau Cydlynydd Gadael yr Adeilad / Rheolwr Gwasanaethau'r Campws.

**4. WARDENIAID TÂN**

I Bydd rhestr o enwau'r Wardeiniaid Tân ynghyd â'u meysydd cyfrifoldeb yn cael ei chadw gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch, Rheolwr Gwasanaethau'r Campws a Derbynnydd Gwasanaethau'r Campws.

5. **YMARFER GADAEL YR ADEILAD**

I. Mae'n hanfodol fod trefniadau gadael mewn argyfwng yn cael eu hymarfer yn rheolaidd i sicrhau bod staff a myfyrwyr

yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau hynny. Bydd ymarferion o'r fath hefyd yn cael eu defnyddio i brofi effeithlonrwydd y systemau sydd wedi'u mabwysiadu, ac i ganfod meysydd i'w gwella neu eu haddasu.

II. Bydd gan Reolwr Gwasanaethau'r Campws gyfrifoldeb cyffredinol dros gydlynu'r Trefniadau ar gyfer Gadael yr Adeilad, a bydd Wardeiniaid Gadael yr Adeilad yn cael eu penodi i helpu Rheolwr Gwasanaethau'r Campws i roi trefniadau o'r fath ar waith.

III. Bydd hysbysiadau rhybuddion tân wedi cael eu gosod yn strategol ym mhob coridor, a byddant yn dangos y llwybr dianc yn glir.

IV. Bydd yn hawdd canfod holl fannau'r larymau a'r offer tân.

**JAMES HOWELL**
**RHEOLWR GWASANAETHAU'R CAMPWS** Mawrth 2017

Hasilwood House
60 Bishopsgate
London EC2N 4AW
Tel: 020 7847 8670
Fax: 020 7847 8689

UMAL

TO WHOM IT MAY CONCERN

15th July 2017

Dear Sir/Madam

**CARDIFF METROPOLITAN UNIVERSITY**
**AND ALL ITS SUBSIDIARY COMPANIES**

We confirm that the above Institution is a Member of U.M. Association Limited, and that the following covers are currently in place:-

1. **EMPLOYERS' LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate No. | Y016458QBE0117A/036 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Limit of Indemnity | £25,000,000 any one event unlimited in the aggregate. |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Cover provided by | QBE Insurance (Europe) Limited and Excess Insurers. |

2. **PUBLIC AND PRODUCTS LIABILITY**

| | |
|---|---|
| Certificate of Entry No. | UM036/96 |
| Period of Cover | 1 August 2017 to 31 July 2018 |
| Includes | Indemnity to Principals |
| Limit Of Indemnity | £50,000,000 any one event and in the aggregate in respect of Products Liability and unlimited in the aggregate in respect of Public Liability. |
| Cover provided by | U.M. Association Limited and Excess Cover Providers led by QBE Insurance (Europe) Limited |

If you have any queries in respect of the above details, please do not hesitate to contact us.

Yours faithfully

Susan Wilkinson

Susan Wilkinson
For U.M. Association Limited